Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

National Assembly for Wales
Public Accounts Committee

Dr Andrew Goodall
Cyfarwyddwr Cyffredinol Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol /
Prif Weithredwr GIG Cymru, Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

15 Mawrth 2019

Annwyl Dr Goodall

Systemau Gwybodeg yng Nghymru

Diolch am eich llythyr dyddiedig 20 Chwefror, a gafodd ei drafod yng nghyfarfod y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ar 11 Mawrth.

Roedd yr Aelodau'n falch o nodi'r bwriad i gyhoeddi adroddiad ar yr adolygiad sy'n cael ei gynnal ar isadeiledd a dyluniad y system ar ddiwedd mis Mawrth. Roedd hefyd yn falch o nodi'r adroddiad ar yr adolygiad a gynhaliwyd ar lywodraethu gwybodeg yn GIG Cymru, sy'n argymell nifer o gamau radical i'w hystyried dros y tymor byr a'r tymor hir.

Mae'r Pwyllgor yn dymuno cael diweddariad ar ddiwedd mis Mehefin ynghylch yr adroddiadau a'r adolygiadau amrywiol sy'n cael eu hamlinellu yn eich llythyr, a hynny er mwyn ein galluogi i ystyried y sefyllfa bresennol cyn toriad yr haf. Byddwn yn cymryd tystiolaeth ar y gwelliannau sy'n cael eu gwneud i'r gwasanaeth hwn yn nhymor yr hydref. Bydd y Clercod yn cysylltu â'ch swyddfa i drefnu dyddiad ar gyfer y sesiwn dystiolaeth dan sylw maes o law.

Yn gywir,

Nick Ramsay AC
Cadeirydd

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddArchwilio@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddArchwilio
0300 200 6565

National Assembly for Wales
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddPAC@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddPAC
0300 200 6565